


ESGOBAETH LLANELWY

TYFU FFYDD • DOD Â GOBAITH • DANGOS CARIAD

GROW FAITH • BRING HOPE • DEMONSTRATE LOVE

DIOCESE OF ST ASAPH

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023





Cyflwyniad gan yr Esgob Gregory

*Oni fyddi'n ein hadfywio eto, Arglwydd,
er mwyn i'th bobl lawenhau ynot?*

(Salm 85:6)

DIWYGIAD

Credwn fod Salm 85 wedi'i chyfansoddi yn y cyfnod ychydig ar ôl i bobl Israel gael dychwelyd i'w gwlad ar ôl y gaethglud i Fabilon. Yn ystod y chweched ganrif Cyn Crist, roedd y Babiloniaid grymus wedi goresgyn Jwda a chaethgludo llawer o'r boblogaeth i fod yn alltud ym Mabilon. Tua saith deg o flynyddoedd yn ddiweddarach, gorchfygwyd Babilon hithau gan Persia, ac anfonwyd yr Iddewon adref gan Ymerawdwr Persia, Cyrus. Fodd bynnag, roedd yr hen ogoniannau wedi'u dinistrio, a gweddi sydd yn y salm hon ar i Dduw ymyrryd eto yn eu bywyd a gwneud i'r genedl ffynnu unwaith eto.

Mae hon yn teimlo'n adnod addas i ni wrth i ni symud allan o afael Covid ac ymlaen i'r dyfodol. Cafodd pobl eu llethu a bu cryn dipyn o ansicrwydd ymhlith ein cynulleidfaoedd. Fodd bynnag, mae gennym

arwyddair newydd eofn triphlyg i'n cenhadaeth – tyfu Ffydd, dod â Gobaith a dangos Cariad, ac mae digon o arwyddion o dwf newydd. Mae Duw ar waith ymhlith ei bobl ac mae'n ein hadfywio.

Mae pobl yn dal i gael eu galw, gyda phum diacon newydd y llynedd, a saith eleni, a chafodd sawl Gweinidog Lleyg eu trwyddedu. Mae gennym arweinwyr lleyg newydd yn ein Hardaloedd Cenhadaeth, gan gynnwys pum Arweinydd Ardaloedd Cenhadaeth lleyg. Credaf fod cyfnod Covid wedi dysgu i ni gydweithio'n well fel Ardaloedd Cenhadaeth, a gwerthfawrogi cryfderau gweinidogaeth tîm. Buom yn ystyried ein Cenhadaeth ac yn meddwl am ffyrdd newydd o fod yn Eglwys ac estyn allan i'r Gymuned – nodir rhai agweddau ar hyn yn yr Adroddiad Blynyddol hwn. Rwy'n obeithiol, oherwydd gwelaf lawer o resymau dros fod yn hyderus fod Duw yn rhoi twf inni, yn codi arweinwyr newydd, ac yn bendithio'r ymdrechion a wnawn dros ei Deyrnas. Mae angen i ni fod yn hyderus yn ein ffydd, gan lawenhau yn Nuw a darganfod ble y mae ar waith ym mywyd yr esgobaeth ac yn y byd.

TÎM YR ESGOBAETH

Gwelsom gryn newid yn nhîm yr esgobaeth. Gadawodd Diane McCarthy ar ôl bod yn Ysgrifennydd yr Esgobaeth am 14 blynedd. Bu Diane yn gweithio yn ein plith gydag angerdd i ddiwygio ac ailwampio bywyd yr esgobaeth fel ei bod yn gadarn, yn gryf ac yn tyfu, ac rydym yn rhannu ffrwyth ei llafur. Ymunodd Hayley Matthews â ni i fod yn Archddiacon Wrecsam ac mae eisoes yn creu argraff gan anelu at adeiladu esgobaeth gref sy'n ymroi i wasanaethu Duw. Penodwyd Olwen Lintern-Smyth yn Ysgrifennydd yr Esgobaeth, gan ddod â chyfoeth o brofiad o fyd yr Eglwys ac elusennau, i'n helpu i flaengynllunio a thyfu. Daeth Rosalind Williams i ben ei chyfnod fel Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes pryd y gwelsom ei doniau mawr ar waith, ac yna daeth Justine Baldwin â'i phrofiad a'i dawn hithau i'r swydd gan fod yn olynydd teilwng mewn partneriaeth ag Esgobaeth Bangor. Diolch yn fawr i bob un o'r rhain am yr hyn y maent wedi'i roi i'r esgobaeth, ac i holl dîm yr esgobaeth – yn staff yr esgob a'r Esgobty, ac yn Swyddfa'r Esgobaeth, am eu holl waith. Diolch yn fawr, yn wir, i bob aelod o deulu'r esgobaeth – i chi – am gyfrannu'ch doniau a'ch ffydd er mwyn adeiladu'r bywyd sydd gennym yn gyffredin.

ASAPH 1450

Un nodwedd o'n bywyd yn 2023 fu dathu 1450 o flynyddoedd, yn ôl y traddodiad, er pan gysegrwyd ein hail esgob, Asaff. Yn ogystal â gwasanaeth ysblessenwyd yn y Gadeirlan, lle cafwyd pregeth gan Ddeon Lerpwl, bu 2023 yn Fwyddyn Jiwibili i ni. Yn y Beibl, roedd Jiwibili yn digwydd pob hanner canfed flwyddyn, pan oedd cyfle i bobl godi eu golygon o feichiau gwaith caled a bywyd bob dydd i gael cipolwg unwaith eto ar ogoniant Duw. Gwahoddwyd pawb ohonom i wneud hynny eleni, gan ganolbwyntio ar y pethau sy'n ein cyffroi wrth wasanaethu Duw, boed yn helpu elusen, yn dyfnhau ein bywyd gweddi, yn gwerthfawrogi harddwch ein byd neu elfennau cysegredig ein heglwysi a mannau eraill, neu ddim ond mwynhau cwmni pobl a rhannu taith ffydd. Gobeithio'ch bod yn cymryd y gwahoddiad hwn o ddifrif ac yn gallu ymuno yn y dathlu.

ARIANNU CENHADAETH MEWN PARTNERIAETH

Rydym yn eithriadol o ddiolchgar i Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru (corff ymddiriedolwyr ein hadnoddau ariannol a

materol ar lefel genedlaethol) am y bartneriaeth y maent wedi'i chynnig i ni yn ystod cyfnod Covid a'r tu hwnt. Cafwyd swm sylweddol o gyllid ychwanegol i'n galluogi i fantoli'r cyfrifon, ac mae'r arian a neilltuwyd ar ein cyfer wedi'i ddatganoli i raddau helaeth i'r Ardaloedd Cenhadaeth i gynnig cymorth iddynt. Eleni, mae'r gronfa cadernid (resilience funding) wedi'n galluogi i wthio adnoddau i'r mannau lle mae eu hangen fwyaf, ac i ymgymryd â phrosiectau newydd fel Eglwysi Hyb Cenhadaeth, sy'n canolbwyntio ar annog twf a gosod sylfeini ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn ymgysylltu â phobl ac yn llwyddo yn ein cenhadaeth – mae twf, nid yn unig yn ein heglwysi ar lawr gwlad, ond drwy'r Eglwys Adnodd, Canolfannau Cenhadaeth ac Eglwysi Hyb Cenhadaeth, syniadau sydd bellach yn cael eu hefelychu a'u datblygu yn esgobaethau eraill yr Eglwys yng Nghymru.

RHOI DIOLCH

Hoffwn orffen trwy ddychwelyd at y nodyn o ddiolch. Mae Duw ar waith, ond gwelwn hynny trwy waith pob aelod o Deulu Asaph. Rwy'n gweld eich ymdrechion newydd i genhadu ac yn rhyfeddu bod gennym y fath dalent a brwdfrydedd dros fentrau newydd. Gwelaf bobl eofn, dewr a chreadigol – a diolch i'n Swyddog Cyfathrebu, Karen Maurice, am gyfleu hynny yn yr adroddiad hwn. Darllenwch yr adroddiad blynyddol hwn a'i fwynhau – diolchwch am bopeth sy'n cael ei gyflawni, ac am bopeth y mae Duw'n dymuno'i wneud gyda ni a thrwom ni. *Oni fyddi'n ein hadfywio eto, Arglwydd, er mwyn i'th bobl lawenhau ynot?*

+gregoryllanelwy

Gregory Llanelwy

<https://dioceseofstasaph.org.uk/bishop-st-asaph/?lang=cy>





Ffydd, Gobaith a Chariad

Yr Hybarch Andy Grimwood, Archddiacon Llanelwy a'r Hybarch Ddr Hayley Matthews, Archddiacon Wrecsam

Ymunodd yr Archddiacon Hayley â Llanelwy o Esgobaeth Leeds ym mis Chwefror 2023. Yma, mae hi a'r Archddiacon Andy yn myfyrio ar y gwerthoedd craidd sy'n sail i strategaeth yr esgobaeth:

- Tyfu Ffydd
- Dod â Gobaith
- Dangos Cariad.

FFYDD, GOBAITH, CARIAD: Y CWRS

Datblygwyd cwrs trafod dros fideo gan yr esgobaeth a'i gyflwyno yn ystod 2022. Mae bron 250 o bobl wedi cymryd rhan yn y cwrs hyd yma. Mae tair Ardal Genhadaeth wedi defnyddio'r astudiaethau Beiblaidd dilynol, ac mae un Hyb Cenhadaeth wedi defnyddio'r cwrs i agor y drws ar ragor o waith astudio'r Beibl.

Dyma beth o'r ymateb:

- Roedd pobl yn ymateb yn gadarnhaol ac arweiniodd at drafodaethau da.
- Cafodd dderbyniad da ac, yn sicr, fe ysgogodd drafodaeth ddofn ar y darnau o'r Beibl a'u perthnasedd i fywyd Cristnogion heddiw.

- Roedd pobl i'w gweld yn mwynhau'r profiad, yn enwedig y cysylltiadau a ffurfiwyd rhwng eglwysi, a'r sgysiau a gafwyd am y fideos.
- Astudiaeth Feiblaidd: Cafodd hyn dderbyniad da: Mae'r grŵp yn dal i gyfarfod i astudio'r Beibl gyda'i gilydd.

EGLWYS ADNODDI: STRYT YR HÔB, WRECSAM

Eglwys Stryt yr Hôb yw ein Heglwys Adnodd gyntaf ac mae ei chynulleidfarn cynnwys nifer o ffoaduriaid o Weraïa a gwirfoddolwyr gyda Bugeiliaid Stryd Wrecsam. Mae'n cymryd rhan ym menter flynyddol Love Christmas, gan ddosbarthu bagiau o garedigrwydd i unigolion a theuluoedd a ganfuwyd gan eglwysi a phartneriaid eraill. Yn 2022, dosbarthwyd 670 o fagiau caredigrwydd a rhoddwyd bocsys siocledi i 1,820 o garcharorion yng Ngharchar Berwyn.

O ganlyniad i'r Weinidogaeth Myfyrwyr a pherthynas eglwys Stryt yr Hôb â Phrifysgol Glyndŵr a Choleg Cambria, mae rhagor o fyfyrwyr yn galw Stryt yr Hôb yn gartref iddynt, yn enwedig ymhlith myfyrwyr nyrsio o gampws Maelor Wrecsam.

Un o brif amcanion prosiect yr Eglwys Adnodd yw meithrin arweinwyr. Mae 26 o bobl wedi mynychu'r Ysgol Diwinyddiaeth, gan dderbyn addysg ddiwinyddol Lefel 4 gan staff Coleg Sant Mellitus. Ar hyn o bryd mae gan eglwys Stryt yr Hôb bedwar ymgeisydd yn mynd trwy broses ddirnadaeth ar gyfer hyfforddiant gweinidogol, ac ymunodd curad newydd â'r eglwys yn haf 2023.

HYBIAU CENHADAETH

Cyhoeddwyd pedwerydd Hyb Cenhadaeth yn 2022, i ychwanegu at y tri a lanswyd eisoes. Mae Hyb Cenhadaeth Treffynnon, sy'n cynnwys eglwysi San Pedr a Sant Iago yn Nhreffynnon a'r Drindod Sanctaidd ym Maes Glas, wedi gweld cynulleidfarn newydd yn datblygu yng ngwasanaeth Bara'r Bywyd bob dydd Llun. Ym mis Hydref 2022, daeth yr Esgob Gregory i wasanaeth Bara'r Bywyd, lle bu'n siarad â'r gynulleidfarn reolaidd.

CANOLFAN GENHADAETH GOGLEDD CYMRU

Bu'n wych gweld Canolfan Genhadaeth Gogledd Cymru'n cael ei sefydlu yng Nghanolfan Dewi Sant, Pen-sarn. Mae hyn, a chynlluniau eraill, yn fynegiant newydd o'r eglwys, mewn cydweithrediad â'r Church Army.

O LAN I LAN: CERDDED YR ARFORDIR

Un ffordd ymarferol yr aeth yr esgobaeth ati i fynegi Ffydd, Gobaith a Chariad oedd cynnal taith gerdded arfordirol bob dydd Llun yn ystod gwyliau haf yr ysgolion yn 2022. Ymunodd dros 70 o bobl ag Archddiacon Llanelwy i gasglu sbwriel, siarad â phobl am ffydd a dod i nabod ei gilydd. Ar ôl cychwyn yn yr Hyb Cenhadaeth yn Eglwys Dewi Sant, Bae Penrhyn, daeth taith O Lan i Lan i ben chwe wythnos yn ddiweddarach ym Mhrestatyn, gan helpu i glirio ar ôl Rali Ceir Clasurol y dref.

ECO-FFEST

Yn dilyn llwyddiant Eco-Ffest 2022 ym mis Hydref 2022 (wedi'i gohirio oherwydd marwolaeth Ei Mawrhydi, y ddiweddar Frenhines), cynhaliwyd ail Eco-Ffest ym mis Mehefin 2023 y tu allan i Eglwys y Santes Fair, y Waun. Anogwyd eglwysi i ddod draw i ddarganfod mwy am ddod yn Eco-Eglwys a sut i fesur eu Hôl Troed Ynni, gan ddefnyddio Offeryn Ôl-Troed Ynni ar-lein yr Eglwys yng Nghymru.

TUA'R DYFODOL

Erbyn canol 2023, roeddem yn brysyr yn paratoui i wneud cais i'r Eglwys yng Nghymru am arian o Gronfa Dwfyr Eglwys. Rydym wrthi'n ysgrifennu swydd-ddisgrifiadau a chynlluniau prosiectau ar gyfer syniadau a fydd, gobeithio, yn dod â bywyd ac egni newydd i genhadaeth yr esgobaeth a'i gwaith efengylu am y deng mlynedd nesaf, o 2024 ymlaen. Mae'n gyffrous iawn cael cyfle i wneud cais am gyllid sylweddol i'n galluogi i rannu'r Newyddion Da a thyfu ein cenhadaeth, ein gweinidogaeth a'n gwaith efengylu yn ein cymunedau eglwysig.

<https://dioceseofstasaph.org.uk/faith-hope-love/?lang=cy>





Asaph 1450

Yr Hybarch Ddr Barry Wilson, Archddiacon Trefaldwyn

Eleni, yn ôl y traddodiad, mae 1450 o flynyddoedd er pan drefnodd Cyndeyrn i gysegru Asaff yn Esgob i'w olynu mewn esgobaeth sydd, erbyn hyn, yn Saesneg, yn dwyn ei enw. Cyhoeddwyd bod 2023 yn flwyddyn Jiwibili i'n hesgobaeth.

Dyma rai o'r ffyrdd yr ydym wedi dathlu blwyddyn y Jiwibili.

- Yn ystod y Grawys, cynigiwyd copi o lyfr yr Esgob Gregory, An Easter Book of Days, i bawb yn y weinidogaeth drwyddedig fel y gallent fyfrio ar yr alwad i gael eu trawsnewid fel disgyblion a'u galluogi i drawsnewid y byd.
- Yng ngwasanaeth Dydd Gŵyl Sant Asaff, derbyniwyd tri o bobl i Urdd Sant Asaff a rhoddwyd darn arian coffaol Asaph 1450 wedi'i fathu'n arbennig i bob aelod o'r gynulleidfa. Dosbarthwyd y rhain mewn gwasanaethau eraill hefyd.
- Cynigiwyd arian i Dîm Arwain pob Ardal Genhadaeth i fynd ar encil preswyl 24 awr gyda'i gilydd. Hyd yma, mae dwy ran o dair o'r Ardaloedd Cenhadaeth wedi ymgeisio am grantiau ac wedi cynnal eu hencil, ac mae'r gweddill wrthi'n cwblhau'r trefniadau.

- Anogwyd pob Gweinidog Trwyddedig i fanteisio ar eu bwrsari hyfforddi a'i ddefnyddio i ailfywiogi a hwyluso eu charism a'u gweinidogaeth. Mae rhai wedi defnyddio'u bwrsari i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel ysgrifennu creadigol a ffotograffiaeth.
- Mae'r Esgob Gregory wedi clustnodi Tymor y Deyrnas (1–26 Tachwedd) yn gyfnod i flaenoriaethu creadigrwydd, a gwahoddir pawb i ymrwmo i gysegru amser i fod yn greadigol, a gwneud pethau sy'n hybu eu llesiant a'u ffyniant.
- Paratowyd deunydd sy'n rhoi cyfle i glerigion fyfrio ar eu gweinidogaeth, a cheisio cymorth i'w datblygu. Adnodd ysbrydol yw *Bugeiliaid Medrus* i adolygu ein gweinidogaeth ein hunain, ac i fyfrio ar ei ffrwythau.

Mae gwybodaeth am yr holl agweddau hyn ar Asaph 1450 ar gael yn <https://dioceseofstasaph.org.uk/asaph-1450/>



Cadeirlan Llanellwys

Y Gwir Barchedig Nigel Williams, Deon Cadeirlan Llanellwys

Bu'n flwyddyn brysur yn y Gadeirlan gydag addoliad esgobaethol, gwasanaethau dinesig ac oedfaon rheolaidd y Sul a dyddiau'r wythnos. Cynhaliwyd gwasanaethau dinesig mawr yn dilyn marwolaeth Ei Mawrhydi yn hydref 2022 ac ar gyfer Coroni Ei Fawrhydi ym mis Mai 2023. Unwaith eto, cynhaliwyd dau wasanaeth ordeinio yn y Gadeirlan ar ran yr esgobaeth. Mae gwasanaethau'r Sul yn dal i gael eu ffrydio'n fyw ar dudalen Facebook y Gadeirlan.

POBL IFANC

Buddsoddwyd yng Nghadeirlan Llanellwys er mwyn datblygu dau fath allweddol o weinidogaeth ar gyfer pobl ifanc:

1. Cerddoriaeth – arweiniodd y Cyfarwyddwr Cerdd, Paul Booth, ymgyrch recriwtio lwyddiannus mewn ysgolion lleol a chreu côr prawf sy'n hyfforddi aelodau newydd ar gyfer côr y Gadeirlan. Ymunodd dros 30 o bobl ifanc newydd yn y cyfarfod cyntaf yn 2022.
2. Caplaniaeth – mae caplan ysgolion yn cael ei benodi i weithio gyda'r ysgol Gymraeg, Ysgol Glan Clwyd, a'r ysgolion cynradd lleol sy'n ei bwydo.

CYRRAEDD CYNULLEIDFAOEDD NEWYDD

Yn 2023, datblygwyd rhaglen o ddigwyddiadau gyda'r nod o gyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Ymhlith y digwyddiadau roedd Noson Deyrnged i Abba, Disgo Tawel o'r 90au a, cyn diwedd y flwyddyn, cynhelir Ffair Briodas a Gŵyl Fwyd y Gaeaf. Mae tîm y Gadeirlan yn dal i gydweithio ag asiantaethau twristiaeth i hyrwyddo Caffi'r Cyfieithwyr a theithiau tywys o gwmpas y Gadeirlan trwy gwmnïau gwyliau bysus.

Y gobaith yw y daw cynulleidfaoedd newydd â ffrydiau refeniw ychwanegol i helpu ymdrechion y Gadeirlan i godi arian ar gyfer dau brosiect adeiladu brys: atgyweirio'r ffenestr lliw ddwyreiniol a gwaith ailbwyntio'r wal o gwmpas drws mawr eiconig y gorllewin. Addawyd hanner yr arian gan yr Eglwys yng Nghymru'n ganolog, ond mae'n rhaid codi gweddill yr arian.

GARDD DREFTADAETH

Mae tîm o wirfoddolwyr ymroddedig yn cyfarfod bob wythnos i ofalu am ardd dreftadaeth y Gadeirlan. Mae'r ardd yn lle braf i gael heddwch a myfrio. Mae gwybodaeth ar gael yn y Gadeirlan fel y gall ymwelwyr ddysgu mwy am y planhigion sy'n tyfu yno.

<https://stasaphcathedral.wales/en>



Grŵp Llywio Datblygu

Y Canghellor Pam Powell, Cyfarwyddwr Gweinidogaeth

Mae'r Archddiacon Hayley, sef Archddiacon newydd Wrecsam, sydd yn y llun uchod, wedi'i phenodi i arwain y Grŵp Llywio Datblygu ac mae'n edrych ymlaen at ddatblygu gweinidogaeth leyg, galwedigaethau a datblygiad gweinidogol parhaus (CMD) ledled yr esgobaeth yn y flwyddyn sydd i ddod.

YSGOL CLERIGION

Bu dros 90% o glerigion yr esgobaeth mewn ysgol glerigion yng Nghanolfan Hayes yn Swanwick ym mis Tachwedd 2022. *Gwneud i'r Daith Ddigwydd* oedd y thema ac roedd y diwinydd blaenllaw Dr Peter Walker a Graham Archer o CPAS yn cymryd rhan. Y Parchg Liz Devall o Esgobaeth Manceinion oedd y caplan a chafwyd sylwadau craff ac 'unigryw' gan yr awdures lwyddiannus Catherine Fox. Mae recordiadau sain o'r holl siaradwyr ar gael o'r tudalennau Vocation and Ministry ar wefan yr esgobaeth.

FFIGURAU'R WEINIDOGAETH

ORDEINIO A THRWYDDEDU YN 2023	NIFER
Ordeiniwyd yn Ddiaconiaid	7
Ordeiniwyd yn Offeiriaid	4
Caplaniaid Bugeiliol a drwyddedwyd	2

YSTADEGAU HYFFORDDIANT HYD AT HAF 2023	NIFER
Cyflogedig	6
Gweinidog Digyflog (NSM)/ Gweinidog Lleyg Digyflog (NSML)	1
Diacon Parhaol	2
Darllenydd	0
Pobl Ifanc a Phlant	0
Efengyllydd	0
Caplan Bugeiliol	3

DECHRAU AR YR HYFFORDDIANT HYDREF 2023	NIFER
Cyflogedig	6
Gweinidog Digyflog (NSM)/ Gweinidog Lleyg Digyflog (NSML)	0
Diacon Parhaol	1
Darllenydd	0
Pobl Ifanc a Phlant	0
Efengyllydd	1
Caplan Bugeiliol	2

MYND TRWY BROSES DDIRNADAETH AR GYFER Y WEINIDOGAETH	NIFER
Cyflogedig	7
Gweinidog Digyflog (NSM)/ Gweinidog Lleyg Digyflog (NSML)	1
Diacon Parhaol	1
Darllenydd	2
Pobl Ifanc a Phlant	0
Efengyllydd	0
Caplan Bugeiliol	0

HYFFORDDIANT ARWEINWYR ARDALOEDD CENHADAETH (MAL)

Bu Arweinwyr Ardaloedd Cenhadaeth yn cyfarfod â'i gilydd dros y flwyddyn i rannu bwyd ac arferion da, gan fyfyrto o safbwynt diwinyddol ar yr hyn y cawn ein galw i'w wneud yn ein gwahanol gyd-destunau. Dros y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn cyfarfod yng nghyd-destun pob MAL i ddysgu mwy am y weinidogaeth mewn ardaloedd gwledig, trefol, anghysbell, dinesig, difreintiedig a chyfforddus ac i weddio dros genhadaeth a gweinidogaeth ein holl eglwysi ac arweinyddion eglwysig.

GWEINIDOGAETHAU WEDI'U COMISIYNU

Mae Cynorthwyyr Bugeiliol ac Arweinwyr Addoliad yn cefnogi'r addoliad ym mhob Ardal Genhadaeth ledled yr esgobaeth. Cynhelir hyfforddiant lleol mewn Ardaloedd Cenhadaeth (neu grwpiau ohonynt), gan elwa ar ddeunyddiau Athrofa Padarn Sant, gyda chymorth Swyddog y Gweinidogaethau a Gomisiynir, y Parchg Will Marshall.

Er mwyn galluogi pobl i ddilyn hyfforddiant os na allant fynd i sesiynau yn lleol, cynhaliwyd cwrs Cynorthwyydd Bugeiliol dros Zoom, a manteisiodd nifer o bobl ar y cyfle hwn.

Crëwyd tystysgrif Arweinydd Addoliad gan Joshua Schoch yn swyddfa'r esgobaeth ac mae ar gael i unrhyw Ardal Genhadaeth sy'n dymuno ei defnyddio. Neu, mae croeso i Ardaloedd Cenhadaeth greu eu tystysgrifau eu hunain os dymunant.

Rydym yn bwriadu datblygu hyfforddiant ar gyfer Gweinidogaeth newydd Catecistiaid a Gomisiynwyd.



DIRNADAETH

Roedd Diwrnod Dirnadaeth blyneddol yr Esgobaeth yn llwyddiannus. Rhoddwyd amser i drafod er mwyn dysgu am wahanol ffyrdd o wasanaethu Duw a'r eglwys a gwahanol weinidogaethau. Cafwyd cyflwyniadau gan bobl ar wahanol gamau yn y broses ddirnadaeth a hyfforddiant yn ogystal â staff o Athrofa Padarn Sant.

CLERIGION WEDI YMDDEOL


Cyfarfu'r Clerigion wedi Ymddeol a'u gwŷr/gwagedd/gweddwn dair gwaith eleni i fwynhau Cymdeithas a Gosber. Gwerthfawrogir haelioni Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth yn rhoi cymhorthdal at y digwyddiadau hyn.

GRŴP YSBRYDOLRWYDD YR ESGOBAETH

Mae Grŵp Ysbrydolrwydd yr Esgobaeth yn cefnogi pob gweinidogaeth yn yr esgobaeth. Uchafbwynt y flwyddyn oedd dosbarth meistr ar weddi yng Nghadeirlan Llanelwy gyda'r Archesgob Rowan Williams ac encil dan arweiniad yr Esgob John Pritchard. Cynhaliwyd digwyddiadau llai ledled yr esgobaeth hefyd. Yn ogystal, symudwyd ymlaen â'r gwaith o hyfforddi Cyfarwyddwyr Ysbrydol i arwain a chefnogi unigolion ar eu taith ysbrydol pan fydd angen.

<https://dioceseofstasaph.org.uk/vocations-and-ministry/>





Grŵp Llywio Ymgysylltu

Sarah Wheat, Swyddog Arweiniol, Grŵp Llywio Ymgysylltu

YR ARGYFWNG COSTAU BYW

Ar ddechrau 2023, mewn ymateb i'r sefyllfa ariannol ddigynsail trwy'r wlad, cymeradwyodd Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth grant untro i helpu â'r argyfwng costau byw. Daeth yr arian hwn o gronfa o £50,000 a ddarparwyd gan yr Eglwys yng Nghymru yn ganolog i gefnogi Canolfannau Clyd a phrosiectau cysylltiedig. Gwahoddwyd Ardaloedd Cenhadaeth a'u heglwysi i ymgeisio am gymorth â chostau'n ymwneud â darparu man 'clyd' y gallai'r gymuned fynd iddo, cymdeithasu a chael lluniaeth ysgafn. Dosbarthwyd cyfanswm o £41,696 mewn ymateb i 29 o geisiadau o 13 o Ardaloedd Cenhadaeth. Mae llawer o brosiectau wedi parhau gan i bobl fwynhau'r cyfle i ddod at ei gilydd.

THIS WORKS!

Rydym wedi dal ati i ychwanegu rhagor o gynnwys, ffilmiau ac ysbrydoliaeth i'r adran This Works! ar y wefan, gan roi sylw i'r prosiectau a'r bobl sy'n trefnu gweithgareddau ymgysylltu cymdeithasol yn yr esgobaeth. Cysylltwch â ni i ychwanegu manylion eich prosiect chi. Yna gellir ei rannu ag eraill i gynnig cefnogaeth ymarferol ac anogaeth er mwyn i brosiectau ffynnu a chyfoethogi ein heglwysi a'n cymunedau.

TORRI LLINELLAU CYFFURIAU

Rydym yn dal i gyflwyno sesiynau hyfforddi Breaking County Lines mewn partneriaeth â'r Clewer Initiative. Rydym bellach yn partneru ag Addysg Oedolion Cymru i gynnig sesiynau Hyfforddi'r Hyfforddwr i'w tiwtoriaid fel y gellir cyflwyno'r hyfforddiant i'w Gweithwyr Ieuenctid ledled Cymru. Mae'r hyfforddiant yn ein galluogi i godi ymwybyddiaeth o'r math hwn o gamfanteisio, a gallwn gydweithio i adeiladu gwytnwch cymunedol sy'n amddiffyn pobl ifanc ac eraill yn ein cymuned rhag effeithiau negyddol Llinellau Cyffuriau.

FFOADURIAID O WCRÁIN

Bu Fforwm Wcráin yr Esgobaeth ar waith tan fis Ebrill 2023. Roedd yn rhannu adnoddau ac yn chwilio am atebion i broblemau teuluoedd lletyol a ffoaduriaid. Rydym yn dal mewn partneriaeth â Link International gan eu bod wedi darparu offer, templedi, canllawiau a'r wybodaeth ddiweddaraf oddi wrth Lywodraeth Cymru. Roedd 20 o bobl yn mynychu'r fforwm yn rheolaidd, gan gyfarfod yn fisol i gefnogi grwpiau eglwysig a theuluoedd lletyol oedd yn gofalu am ffoaduriaid o Wcráin ac yn gweithio gyda nhw. Mae'r fforwm yn dal i rannu newyddion yn ôl yr angen. Mae llawer o'r ffoaduriaid wedi symud i lety mwy parhaol erbyn hyn.

TLODI BWYD YNG NGHYNMRU

Aethom ati mewn partneriaeth â Well Fed/Can Cook, busnes cymdeithasol ar Lannau Dyfrdwy, i gynnal cynhadledd yng Nghadeirlan Llanelwy i weld sut y gall pawb ohonom gydweithio i newid ein system fwyd. Daeth dros 120 o bobl o bob rhan o'r esgobaeth i ddarganfod sut y gall pawb gael bwyd da, maethlon waeth beth fo'u hincwm. Bu'r gynhadledd yn edrych ar ffyrdd y gall ein heglwysi a'n pobl helpu i roi terfyn ar dlodi bwyd yng Nghymru.



BYDDWCH YN SWYDDOG CYMORTH CYNTAF IECHYD MEDDWL

Erbyn hyn, mae gan yr esgobaeth hyfforddwr cymwysedig Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, sy'n ein galluogi i gynnig hyfforddiant cost isel i fod yn Swyddog Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. Cynhaliwyd dau gwrs hyd yma yn 2023 ac mae un arall wedi'i drefnu ar gyfer yr hydref. Gallwn ddarparu hyfforddiant ar-lein neu wyneb yn wyneb. Mae deall y problemau iechyd meddwl y mae pobl yn eu hwynebu a beth i'w wneud mewn argyfwng iechyd meddwl yn hynod bwysig heddiw.

<https://dioceseofstasaph.org.uk/faith-in-action/>



Ysgolion

Tîm Addysg Esgobaeth Llanelwy

Mae Esgobaeth Llanelwy yn gofalu am 50 o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru. Ym mis Chwefror 2023, penodwyd Cyfarwyddwr Addysg newydd ar gyfer gogledd Cymru. Mae'r Dr Justine Baldwin yn gofalu am ysgolion yma ac yn Esgobaeth Bangor.

🌿 CARU CREADIGAETH

Daeth 200 o bobl i ddigwyddiad ar thema amgylcheddol yng Nghadeirlan Llanelwy ym mis Gorffennaf 2023. Ysbrydolwyd yr achlysur gan adroddiad o waith Athro mewn Archaeoleg a fu'n cofnodi gwastraff plastig ar safle archaeolegol yng Nghastell Henllys. Ymunodd addysgwyr a chlerigion â disgyblion o bedair ysgol eglwys leol i ddathlu'r neges a welir yn Genesis a Llyfr y Salmau am ein dyletswydd i fod yn stiwardiaid ar y greadigaeth.

🌿 TEDDY FRANCIS-JOHN

Yn ystod y Pandemig, aeth y Parchg Paulette Gower ati i ysgrifennu a ffilmio straeon Beiblaidd gyda chast o dedi bêrs, o dan arweiniad Teddy Francis-John. Ym mis Ionawr 2023, gan fod y rhain mor boblogaidd, anfonwyd 60 o dedis oedd yn ffrindiau â Teddy Francis-John i helpu i ennyn diddordeb plant yn y Beibl. Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn Ardal Genhadaeth cylch y Trallwng i hybu'r weledigaeth, Tyfu Ffydd, Dod â Gobaith, Dangos Cariad, a gwahoddwyd ysgolion eglwys lleol iddo. Bu Ymwelwyr yr Esgob yn cydweithio â'r Tîm Addysg i sicrhau bod

tedis yn cael eu hanfon i bob ysgol eglwys yn Esgobaeth Llanelwy. Cafodd rhai o gyfeillion arbennig, 'ifanc eu hysbryd', Teddy Francis-John dedi-bêrs hefyd, gyda rhai'n teithio cyn belled â Jersey a Thedi Esgob arbennig yn helpu yn yr Esgobty.

Mae plant a phobl ifanc yn ein 50 o ysgolion eglwys yn awyddus i sicrhau bod y tedi bêrs yn cael rhan yn y gwaith o ddysgu a dathlu gwerthoedd a thraddodiadau Cristnogol.

🌿 ASAPH 1450


Er mwyn dathlu Asaph 1450, bu'r Tîm Addysg yn edrych ar yr hanesion am sefydlu Llanelwy, y lle. Bu'n cydweithio ag Ysgol Esgob Morgan, gyda chymorth grant gan Culham St Gabriel's, i ymchwilio i 'gynefin' yr ysgol. Ar ôl clywed stori Cyndeyrn (a elwid hefyd yn Kentigern a Mungo) roedd y disgyblion a'r athrawon yn awyddus i ddatblygu'r prosiect yn y dosbarth.

Roedd hunaniaeth Gristnogol Gymreig a pherthynas ddofn â'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn themâu cyffredin. Mae'r prosiect wedi helpu cymuned yr ysgol gyfan i ddeall sut roedd hunaniaeth a gwerthoedd Cristnogol yn ganolog i sefydlu canolfan gysegredig yn Llanelwy.

🌿 CYFARODYDD ARWEINWYR YSGOLION YR EGLWYS YNG NGHYNMRU

Yn ystod haf 2023, bu cyfarfodydd arweinwyr ysgolion yn Wrecsam a'r Trallwng yn boblogaidd gyda phenaethiaid, llywodraethwyr a chynrychiolwyr Ardaloedd Cenhadaeth o bob rhan o'r esgobaeth. Ar yr agenda roedd cyflwyniadau ar gynllunio'r cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, hyfforddiant ar ddysgu argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol, y newyddion diweddaraf ar arolygiadau Adran 50, a hyfforddiant ar benodi a recriwtio Llywodraethwyr Sefydledig. Yn ogystal, roedd y cyfarfodydd yn cynnwys cyflwyniadau gan Transforming Lives for Good, elusen Gristnogol sy'n cydweithio â theuluoedd, ysgolion a chymunedau eglwysig i gynnig ymyrraeth gynnar i ddisgyblion ag anghenion o ran eu datblygiad emosiynol, a Well-Fed, busnes cymdeithasol sy'n ymroi i sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael bwyd maethlon, wedi'i goginio'n dda. Roedd y rhai a ddaeth i'r cyfarfodydd yn gwerthfawrogi'r cyfle i feithrin eu sgiliau a'u gwybodaeth fel arweinwyr, ac i gael cyfarfod hir-ddisgwyliedig ag eraill a gynigiai gefnogaeth a deialog proffesiynol. Bwriedir cynnal dau gyfarfod arall i arweinwyr ysgolion, yn Llanelwy a Chaernarfon, ym mis Hydref.

<https://dioceseofstasaph.org.uk/schools/>





Plant a Phobl Ifanc

Hannah Daniels, Swyddog Plant ac Ieuenctid

🌿 GWEITHWYR IEUENCTID

Bu twf ac adfywiad yn ganolog i'n gwaith plant ac ieuenctid eleni. Gwelwyd cynnydd yn nifer y gweithwyr ieuenctid/pob oed: Bellach mae gweithiwr arbenigol ym mhob un o'r pedair eglwys Hyb, ynghyd ag Eglwys Adnodd Stryt yr Hôb ac mae dwy Ardal Genhadaeth, Pwll, ac Aber a Mynydd, yn cyflogi gweithwyr ieuenctid.

🌿 GWAITH YSGOLION A CHAPLANIAETH

Mae llawer o'r gwaith yn yr eglwysi Hyb wedi canolbwyntio ar feithrin cysylltiadau â chymunedau lleol, yn enwedig ysgolion, ac arweiniodd hyn at ddatblygu gwaith caplaniaeth mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Roedd y gwaith yn cynnwys gwasanaethau ysgol, sesiynau galw heibio ac 1-1, dyddiau myfyrio Mannau Gweddi, clybiau gwyliau, a chydweithio â Chanolfan Darganfod Gwyddoniaeth Xplore! yn Wrecsam. Llwyddwyd i gyrraedd dros 500 o blant a phobl ifanc yn yr esgobaeth drwy'r gwaith hwn.

🌿 CYSYLLTIADAU AG EGLWYS LOEGR

Mae'r Swyddog Plant ac Ieuenctid, Hannah Daniels, yn cynrychioli Cymru ar bwyllgor gwaith y Rhwydwaith Cynghorwyr Plant ac Ieuenctid. Ym mis Ebrill 2023, cyfarfu'r pwyllgor ag Archesgob Caerefrog a fu'n rhannu ei weledigaeth am roi plant, pobl ifanc a

theuluoedd, yn reddfod, wrth galon cenhadaeth a gweinidogaeth yr Eglwys. Er mai menter gan Eglwys Loegr ydyw, mae'n fuddiol i'r Eglwys yng Nghymru hefyd, ac mae'r ddau gorff Anglicanaidd wedi bod yn rhannu arferion da ac yn dal i wneud hynny.

🌿 HYFFORDDIANT

Mae Hannah Daniels wedi cymhwyso fel hyfforddwr Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Ieuenctid ac eleni bu'n arwain cyrsiau i bobl yn yr esgobaeth, staff Ysgol Dewi Sant, Llandudno a gweithwyr yr elusen Plant yng Nghymru. Erbyn hyn, mae dros 30 o bobl yn yr esgobaeth wedi cael yr hyfforddiant a bwriedir datblygu hyn ymhellach yn 2024.

🌿 CYNLLUNIAU AT Y DYFODOL

Gan edrych i'r dyfodol, mae'r cysylltiad ag Esgobaeth Helsinki yn y Ffindir wedi ailgychwyn. Mae'r cynlluniau'n cynnwys taith gan gôr y gadeirlan a thaith gyfnawid rhwng pobl ifanc o'r ddwy esgobaeth. Bydd y Grŵp Llywio Meithrin yn ailymgynnull ym mis Hydref 2023, gan gynnwys llais pobl ifanc am y tro cyntaf ers sefydlu'r grŵp. <https://dioceseofstasaph.org.uk/young-people-and-children/>



Eiddo

Tim Eiddo Llanellwy

🌿 EGLWYSI

Cafodd eglwysi eu harchwilio trwy gydol y flwyddyn, gyda 51 archwiliad yn ystod 2022/23. Yn ogystal, dros y 12 mis diwethaf rydym wedi ymweld ag eglwysi i roi cymorth, cyngor ac arweiniad ar baratoi ceisiadau am Hawlebau (caniatâd i wneud gwaith ar yr adeiladau).

Cwblhawyd gwaith ymestyn ac adnewyddu Eglwys yr Holl Saint, y Drenewydd, ym mis Mehefin 2023. Mae hyn yn rhoi ystafell gyfarfod, cegin a chyfleusterau ategol newydd fel y gall yr eglwys ehangu ei rhaglen o weithgareddau cymunedol, ac mae'n rhoi lle ar gyfer gwahanol fathau o addoliad ar y Sul.

Mae gwaith ad-drefnu Eglwys San Pedr, Llanbedr Dyffryn Clwyd, yn rhoi cyfleusterau newydd a lle hyblyg yng nghorff yr eglwys. Bydd

hyn yn golygu y gellir gwneud mwy o ddefnydd o'r lle, yn bennaf ar gyfer meithrin disgyblion ac ymgysylltu â'r gymuned ehangach. Cynhelir Ysgol Gân yr Ardal Genhadaeth yma er budd holl eglwysi Dyffryn Clwyd.

🌿 EGLWYSI PERERINION

Erbyn hyn, mae'n rhaid i Eglwysi Pererinion gyflwyno adroddiad blynyddol er mwyn aros yn y cynllun. Cafodd y rhain eu hadolygu'n ddiweddar gan y Bwrdd Eiddo, ac mi gymeradwywyd pob un am y 12 mis nesaf. Mae naw eglwys yng nghynllun yr Eglwysi Pererinion bellach. Un o'r rhai a dderbyniwyd i'r cynllun yn ddiweddar oedd Eglwys Sant Ioan, Bettisfield. Eglwys wledig mewn cymuned amaethyddol yw hon ac mae'n awyddus i gynnal digwyddiadau sy'n tynnu sylw at y gwaith a wneir ar ffermydd cyfagos er mwyn tanlinellu'r cysylltiad rhwng yr amgylchedd, anifeiliaid a bwyd.



FFORYMAU EIDDO

Yn dilyn newidiadau yn y Tîm Eiddo yn ddiweddar, mae cynlluniau ar y gweill i ailsefydlu Fforymau Eiddo fel y caiff Wardeniaid Eglwys ac Ardaloedd Cenhadaeth gyfle i gyfarfod â Thimau Eiddo a Thimau Ariannu'r Esgobaeth. Y gobaith yw y bydd y fforymau hyn yn adeiladu ar y gwaith da a wnaed eisoes, fel nodi pryderon cyffredin, rhoi cyfle i rannu arbenigedd a meithrin perthnasoedd ar draws yr esgobaeth.

NEWIDIADAU I'R TÎM EIDDO

Ffarwelwyd â Rachel Cutler ym mis Tachwedd 2022 ar ôl ei phenodi'n Swyddog Eglwys sydd wedi'u Cau gyda Chorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru. Bu'n bleser croesawu Ceri Jones i'r tîm fel ein Swyddog newydd Cadwraeth a Datblygu Eglwys. Mae Ceri'n gofalu am fynediad i'r System Hawlebau Ar-lein (OFS) ac mae'n gallu cefnogi a chynghori ymgeiswyr ledled yr esgobaeth gyda'u ceisiadau am Hawlebau (caniatâd i wneud gwaith ar eu hadeiladau).

PWYLLGOR CYNGHORI'R ESGOBAETH (DAC)

Archddiaconiaeth Llanelwy 2022	Dyfarwyd	Ar y Gweill
Math A	52	0
Math B	22	1
Llawn	20	4

Archddiaconiaeth Trefaldwyn 2022	Dyfarwyd	Ar y Gweill
Math A	11	0
Math B	6	2
Llawn	6	6

Archddiaconiaeth Wrecsam 2022	Dyfarwyd	Ar y Gweill
Math A	19	0
Math B	16	0
Llawn	12	5

PERSONDAI

Bu gwaith rheoli portffolio persondai'r esgobaeth yn gryn her yn ystod 2022/23. Ar ôl y pandemig a'r cyfyngiadau cysylltiedig, mae sefyllfa ariannol ansefydlog y byd a chwyddiant uchel wedi arwain at flwyddyn anodd. Mae hyn wedi amharu ar waith atgyweirio, cynnal a chadw, a gwella ein persondai. Mae mwy o bwysau ar gyllidebau, ac mae'n anodd rhagweld a rheoli amserlenni ar gyfer gwneud gwaith.

Er bod y farchnad dai wedi dychwelyd yn raddol i sefyllfa fwy 'normal' y cyfnod cyn y pandemig, mae ansicrwydd ariannol wedi arwain at sefyllfa lle mae gwaredu a gwerthu persondai, yn enwedig rhai sy'n anodd eu gwerthu, yn dipyn o her. Mae darpar brynwyr yn cael trafferth sicrhau morgeisi neu'n ei chael yn anodd gwerthu eu tai eu hunain. Mae'r ffaith fod persondai'n araf yn gwerthu wedi amharu ar Gronfa Gwella Persondai'r Esgobaeth.

Mae'r Bwrdd Eiddo yn dal i gadw at strategaeth o waredu persondai os yw eu perfformiad ynni'n wael, neu os oes angen buddsoddiad sylweddol i uwchraddio a gwella eiddo i gyrraedd y safonau cyfredol. Mae'r strategaeth hon, ynghyd â gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni a gosod systemau ynni adnewyddadwy yn y persondai, yn cefnogi ymrwymiad yr Eglwys yng Nghymru i sicrhau statws carbon sero net erbyn diwedd y degawd.

YSTADEGAU EIDDO PERSONDAI 2022/23:

Persondai wedi'u hadnewyddu neu'n barod i gartrefu clerigion	23
Grantiau a dderbyniwyd ar gyfer gwella tai clerigion (Elusen Marshalls)	£3,380
Persondai a werthwyd/wareddwyd	1
Persondai sy'n cael eu marchnata i'w gwerthu/gwaredu ar hyn o bryd	4
Persondai a gafodd eu prynu/caffael	2
Persondai a gafodd eu gosod	9
Persondai lle gosodwyd systemau ynni adnewyddadwy	4
Persondai lle gosodwyd pwyntiau gwefru e-gerbydau	5

<https://dioceseofstasaph.org.uk/property/>



Ariannu

Martyn Schlangen, Swyddog Ariannu

Mae Pwyllgor Grantiau'r Esgobaeth yn dal i gyfarfod yn chwarterol, gan adolygu ceisiadau am grantiau i helpu â gwaith atgyweirio hanfodol, cynnal a chadw, a gwaith ar brosiectau yn ein heglwys. Cymeradwywyd cyfanswm o £50,110 mewn ymateb i 21 o geisiadau.

Mae'r Swyddog Ariannu yn dal i roi gwybodaeth mewn ymateb i ymholiadau a cheisiadau am gyngor ac mae'n rhoi cefnogaeth uniongyrchol i brosiectau. Mae hyn yn amrywio o gynnig cyngor cychwynnol, helpu i baratoi cynlluniau a strategaethau ar gyfer prosiectau, cyfeirio cynrychiolwyr yr eglwys at ffynonellau ariannol posibl, cynnig cyngor am weithgareddau codi arian a chynorthwyo gyda cheisiadau am grantiau. Gyda'r gefnogaeth hon, codwyd cyfanswm o £650,000 ar gyfer 26 o brosiectau, gan sicrhau cyllid hanfodol i helpu â gwaith trwsio a phrosiectau ad-drefnu.

Dyma rai prosiectau nodedig:

- **St Paul, Rhosesmor:** Codwyd £250,000 i dalu am osod cegin, toiled a gofod cymunedol newydd i gefnogi Siop y Pentref / The Outpost Shop (a ddangosir uchod) mewn eglwys sy'n gwasanaethu'r gymuned wledig.
- **Santes Fair, Llanfair Talhaearn:** Codwyd £150,000 i dalu am osod cegin, toiled a gofod cymunedol newydd.
- **San Pedr, Llanbedr Dyffryn Clwyd:** Codwyd £90,000 i dalu am osod cegin a thoiled newydd.
- **Sant Marc, Parc Caia, Wrecsam:** Maent yn ceisio codi £600,000 ar gyfer eu prosiect i ad-drefnu'r eglwys.

<https://dioceseofstasaph.org.uk/grants/>



Cyllid

Sandra Davies, Swyddog Cyllid

Mae Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth (DBF) yn cynnwys cynrychiolwyr llebyg a chlerigol wedi'u hethol gan eglwysi ledled yr esgobaeth, ynghyd ag aelodau ex-officio. Cynrychiolir holl ardaloedd yr esgobaeth ar y Bwrdd ac mae'r aelodau etholedig yn dod â chryn brofiad o fywyd a chyllid yr eglwys i'r cyfarfodydd a'r trafodaethau.

ADOLYGIAD O 2022–2023

Er gwaethaf yr heriau a barhaodd trwy 2022 ac i mewn i 2023, mae'r Bwrdd yn dal i stiwardio a chyfeirio adnoddau ariannol yr esgobaeth er mwyn cefnogi cenhadaeth, gweinidogaeth a thwf. Rydym yn ddiolchgar i Fwrdd Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru a ddarparodd ragor o arian yn 2022 i gefnogi pob un o'r chwe esgobaeth trwy'r heriau ariannol parhaus. Defnyddiodd y Bwrdd yr arian hwn fel bod yr holl Ardaloedd Cenhadaeth yn cael cymorth hanfodol ar gyfer yr eglwysi ar lawr gwlad, er mwyn rhoi arian at ddibenion penodol lle'r oedd angen ac i ariannu cynlluniau

newydd i annog twf. Parhaodd yr Ardaloedd Cenhadaeth i ymateb yn ardderchog gan sicrhau bod y Gyfran wedi'i thalu'n llawn, cydweithio ag eglwysi eraill yn yr Ardal Genhadaeth ac, yn aml, gefnogi'r naill a'r llall.

Yn 2022, roedd y Bwrdd wedi cyllidebu ar gyfer diffyg o £95,449 fel rhan o'u hymrwymiad i ailfuddsoddi gwargedion y blynyddoedd cynt. Roedd y gwarged terfynol ar weithrediadau yn £128,868. Y prif reswm am hyn yw'r gostyngiad yng nghostau cyflogau clerigion cyflogedig a staff llebyg gan i'r esgobaeth gael anhawster i lenwi swyddi gwag trwy gydol 2022. Mae'r Bwrdd wedi parhau â'i ymrwymiad i'r weinidogaeth reng flaen ac mae'n gweithio'n galed i lenwi swyddi gwag mewn modd amserol.

Yr elfen fwyaf yng ngwariant ein hesgobaeth (61% neu £2.5m) yw costau clerigion, gan gynnwys cyflogau, pensiynau a chostau tai. Yn

ogystal, mae'r Bwrdd yn dyrannu arian i gefnogi gwaith Grwpiau Llywio'r Esgobaeth ym meysydd allweddol ymgysylltu cymdeithasol, addysg a dysgu gydol oes, a gwaith cefnogi a datblygu ar gyfer yr holl wahanol fathau o weinidogaeth. Mae hefyd yn ariannu gwaith Tim Swyddfa'r Esgobaeth sy'n rhoi cefnogaeth hanfodol i fywyd ein heglwysi a'n Hardaloedd Cenhadaeth.

Er bod cynnydd o 2% yng nghyflogau clerigion a staff lleyg a chynnydd o 7.3% yng nghostau tai clerigion yn 2022, penderfynodd y Bwrdd na fyddai cynnydd yng nghyfanswm lefel Cyfran yr Ardaloedd Cenhadaeth am y bedwaredd flwyddyn o'r bron. Bu gostyngiad yn y grant blynyddol oddi wrth Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru yn 2022. Fodd bynnag, roedd gostyngiad yng nghostau clerigion yn gwneud iawn am hyn gan mai Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru sy'n gyfrifol erbyn hyn am gyfraniadau i'r cynllun pensiwn clerigion, a ddôl gynt o goffrau'r esgobaeth.

O ganlyniad i bandemig y coronafeirws, lluniwyd fformiwla newydd ar gyfer dyrannu Cyfran yr Ardaloedd Cenhadaeth yn 2023. Cynhaliwyd cyfres lwyddiannus o sioeau teithiol, fideos ac adran Cwestiynau Cyffredin ar wefan yr esgobaeth i gyflwyno'r fformiwla.

Mae Trysoryddion Ardaloedd Cenhadaeth a Thrysoryddion Eglwysi'n dal i gydweithio'n adeiladol ac yn weddigar er mwyn sicrhau bod ein heglwysi'n gynaliadwy ac yn llewyrchus. Ar Zoom y cynhaliwyd y rhan fwyaf o Gyfarfodydd Cyllid ein Hardaloedd

Cenhadaeth unwaith eto yn ystod 2022 ac mae hynny wedi profi'n ffordd effeithlon o weithio. Roeddem wrth ein bodd fod pob un o'r 19 Ardal Genhadaeth yn gymwys am y cynllun disgownt blynyddol am y drydedd flwyddyn o'r bron ac mae hynny'n deyrnged wirioneddol i'r holl waith ffyddlon a wneir gan gynifer o bobl ledled yr esgobaeth.

CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL – Y BLAENORIAETHAU AR GYFER 2023 A'R TU HWNT


- Mae Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth (DBF) wedi cytuno i ariannu'r gwerthoedd allweddol, **'Tyfu Ffydd, Dod â Gobaith, Dangos Cariad'** dros y 5 mlynedd nesaf.
- Bydd holl warged 2022 ar weithrediadau'r esgobaeth, sef **£128,868** yn cael ei ailfuddsoddi yn y cynlluniau hyn, ynghyd â gwarged 2021 o **£197,247**.
- Mae Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth yn parhau â'i ymrwymiad i ariannu pedair Eglwys Hyb Cenhadaeth, a buddsoddi yn y Gadeirlan ac mewn Gweinidogaeth Ddigidol.
- Bydd y Bwrdd yn dal i gydweithio'n agos â'r esgob i bennu meysydd twf eraill y mae angen buddsoddi ynddynt.
- Bydd y Bwrdd yn datblygu ei gais am arian o Gronfa Dwf yr Eglwys sy'n werth £100m ac a reolir gan y Corff Cynrychiolwyr.

Cyllideb 2023:

Incwm

Cyfran yr Ardaloedd Cenhadaeth

Yr Eglwys yng Nghymru, Caerdydd, Incwm Rhent o Eiddo ar Osod, Incwm arall, Buddsoddiadau'r Esgobaeth




Gwariant


Costau Clerigion yn cynnwys tai

Datblygu ac Ymgysylltu Cymdeithasol

Y Gadeirlan, Cefnogaeth Wledig, Archwilio Eglwysi a Hawlebau

Costau Canolog yr Esgobaeth yn cynnwys y Grŵp Llywio Meithrin, Grantiau, Llywodraethiant, a Staff Cymorth





Cadw mewn cysylltiad

Esgobaeth Llanelwy,
Swyddfa'r Esgobaeth, Stryd Fawr, Llanelwy, LL17 ORD

☎ 01745 582245

✉ stasaphoffice@cinw.org.uk

🌐 <https://dioceseofstasaph.org.uk/?lang=cy>

f X @StAsaphDiocese

Rhowch eich enw i gael StAR, ein cylchlythyr wythnosol:
<https://dioceseofstasaph.org.uk/st-asaph-round-up-newsletter/>